



# Ar Drywydd Dysgu: Crynodeb o'r adborth a ddaeth i law yn ystod gwanwyn 2020

## Y cyd-destun

Mae deunyddiau Ar Drywydd Dysgu yn cefnogi ymarferwyr yn y gwaith o asesu dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLI). Cawsant eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2006 ac mae parch mawr iddynt ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Fel rhan o'r gwaith ehangach o ddiwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, rydym wedi diweddarau deunyddiau Ar Drywydd Dysgu, sy'n cynnwys:

- **Map llwybrau**, sy'n rhoi trosolwg o ddatblygiad gwybyddol cynnar y dysgwyr hyn, eu sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol, a'r modd y maen nhw'n rhyngweithio â'r amgylchedd, gan nodi'r cerrig milltir pwysicaf fel bocsys oren
- **Ilyfryn asesu** sy'n ategu'r Map llwybrau drwy roi enghreifftiau o weithgareddau asesu, strategaethau addysgu ac arweiniad o ran beth i edrych amdano wrth asesu.
- **clipiau fideo** sy'n dangos dysgwyr sydd ag ADDLI yn arddangos ymddygiadau bocsys a cherrig milltir y Map llwybrau
- **canllawiau** sy'n galluogi ymarferwyr i roi'r gefnogaeth orau i ddysgwyr sydd ag ADDLI.

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Map llwybrau a deg fideo i arddangos rhai o'r bocsys a'r cerrig milltir. Ar ôl ystyried y sylwadau a ddaeth i law mewn digwyddiad ymgysylltu ym mis Gorffennaf 2019 a thrwy ffurflen ar-lein, cyhoeddwyd cynigion pellach i ddiweddarau iaith y Map llwybrau ynghyd â deg fideo arall a fersiwn ddrafft o'r canllawiau at ddibenion adborth pellach ym mis Ionawr 2020.

Mae cydweithio yn ganolog i'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru ac rydym wedi parhau â'r egwyddor honno yn ystod gwanwyn a haf 2020. Yn ogystal â chasglu safbwyntiau ar y deunyddiau drafft drwy ffurflen ar-lein, cynhaliwyd digwyddiadau i ymgysylltu ag ymarferwyr yn y Gogledd a'r De ym mis Chwefror 2020. Cawsom gyfle hefyd i gwrdd â gweithwyr ieuchyd proffesiynol i gael eu hadborth nhw. Gan weithio gyda Grŵp Cynghori Ar Drywydd Dysgu<sup>1</sup>, rydym wedi ystyried y sylwadau a ddaeth i law. Mae grŵp bach o ymchwilyr, ymarferwyr a therminolegwyr hefyd wedi ystyried yr adborth a roddwyd mewn ymateb i'r newidiadau arfaethedig i'r Map llwybrau Cymraeg a Saesneg.

Gan roi sylw i'r adborth hwn, rydym bellach wedi cwblhau'n derfynol y rhan fwyaf o ddeunyddiau Ar Drywydd Dysgu<sup>2</sup>.

---

<sup>1</sup> Ymhlith aelodau'r Grŵp Cynghori mae ymarferwyr cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg o ysgolion arbennig, yn ogystal ag academyddion sy'n gweithio ym maes ADDLI.

<sup>2</sup> Dylid nodi na fydd fideos enghreifftiol ar gael i gyd-fynd â holl ddisgrifiydion y Map llwybrau ym mis Gorffennaf 2020. Yn sgil COVID-19, ni fu modd inni gasglu mwy o fideos er mwyn cwblhau'r gyfres. Caiff y gyfres lawn o fideos ei chyhoeddi cyn gynted â phosibl yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21.

## Prif themâu'r adborth a ddaeth i law

Isod ceir trosolwg o rai o'r prif themâu a ddaeth i law yn yr adborth ynghylch deunyddiau drafft Ionawr 2020.

### Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu

- Roedd yna gytundeb bod angen diweddarau'r iaith a'r derminoleg ymhellach i sicrhau ei fod yn eglur ac yn hwylus i'w ddefnyddio. Mae'r adborth hwn wedi'i adlewyrchu yn y Map llwybrau diwygiedig.
- Gofynnwyd am eglurder ychwanegol ynghylch y saethau ar y Map llwybrau. Mae'r eglurhad hwn ynghyd â gwybodaeth bellach ar y newidiadau a wnaed i'r Map llwybrau i'w gweld yn y nodyn esboniadol ar-lein yn [hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu).
- Roedd llawer yn teimlo bod angen geirfa i helpu ymarferwyr i ddefnyddio'r Map llwybrau a'r deunyddiau ehangach. Mae geirfa ddrafft gychwynnol i'w gweld ar-lein yn [hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu). Bydd y fersiwn terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod y flwyddyn academaidd 2020/21.

### Fideos enghreifftiol Ar Drywydd Dysgu

- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i weld y fideos a rhoddwyd adborth cadarnhaol, gan nodi eu bod yn adnodd defnyddiol i ymarferwyr ac wrth gefnogi aelodau staff newydd. Mae'r wybodaeth yn y fideos yn dangos yn glir beth sy'n cael ei asesu, gan gydnabod ar yr un pryd anghenion ac ymatebion gwahanol iawn pob dysgwr.
- Argymhellwyd rhoi mwy o enghreifftiau i gyd-fynd â bocsys a cherrig milltir y Map llwybrau. Rydym yn parhau i geisio creu fideos ychwanegol i arddangos y disgrifyddion. Fodd bynnag, yn sgil COVID-19, bu'n rhaid inni ohirio'r amserlen ar gyfer lanlwytho fideos newydd. Bydd cyfres lawn ar gael yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol hefyd, er mwyn sicrhau bod gennym ystod o glipiau i arddangos pob un o 42 disgrifydd y Map llwybrau, y gallai hyn fod yn broses sy'n parhau, gan ychwanegu fideos yn ddiweddarach.
- Gofynnwyd inni gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y fideos, yn esbonio anawsterau'r dysgwyr dan sylw yn fanylach, ac rydym wedi diwygio testun y fideos yng ngoleuni hyn. Dylid darllen y llyfryn asesu a'r canllawiau ochr yn ochr â'r fideos hyn, a fydd yn darparu mwy o wybodaeth.
- Gofynnodd rhai am fwy o wybodaeth yn y fideos am sut i osod dysgwyr yn gorfforol. Caiff hyn ei adlewyrchu, lle bo'n briodol, yn y fideos a gyhoeddir yn haf 2020 a'r gyfres lawn a gyhoeddir yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

## Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau

- Croesawyd y cyfle i weld y canllawiau drafft a rhoddwyd adborth cadarnhaol, gan nodi eu bod yn gynhwysfawr ac yn glir ar sail gwaith ymchwil helaeth. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddant o gymorth i ymarferwyr.
- Roedd yna gytundeb bod yr astudiaethau achos yn help i egluro'r canllawiau drwy roi enghreifftiau ymarferol i'r rheini sy'n gweithio gydag dysgwyr sydd ag ADDLI.
- Gofynnodd rhai am fwy o wybodaeth am y berthynas rhwng y canllawiau hyn a chanllawiau ehangach Cwricwlwm i Gymru. Mae'r fersiwn derfynol o ganllawiau Ar Drywydd Dysgu yn rhoi sylw i hyn.
- Roedd rhai yn teimlo y dylai'r canllawiau adlewyrchu dysgu drwy chwarae a hamdden yn fwy. Rydym wedi diweddarau'r canllawiau yng ngoleuni'r adborth hwn, gan gynnwys cyfeiriadau perthnasol lle bo'n briodol.

## Dysgu proffesiynol

- Nodwyd angen clir am gyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ran sut i ddefnyddio deunyddiau Ar Drywydd Dysgu i asesu dysgwyr sydd ag ADDLI. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu deunyddiau dysgu proffesiynol mewn perthynas ag Ar Drywydd Dysgu, a byddwn yn eu cyflwyno ynghyd â'r gyfres lawn o fideos yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

## Gwaith pellach a gwblhawyd ers Ionawr 2020

Yn ogystal â chwblhau'r Map llwybrau yn derfynol, y canllawiau a llawer o'r fideos enghreifftiol, mae'r llyfryn asesu hefyd wedi'i ddiweddarau erbyn hyn. Gallwch ei weld ar-lein yn [hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu](http://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu).

## Gwaith sydd ar y gweill a'r camau nesaf

- Rydym yn datblygu rhestr o dermau i gefnogi ymarferwyr i ddefnyddio'r Map llwybrau a'r deunyddiau Ar Drywydd Dysgu ehangach.
- Caiff y gyfres o fideos enghreifftiol ei chwblhau yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.
- Rydym am lunio fersiwn ryngweithiol o'r Map llwybrau, gan dynnu'r Map llwybrau ei hun, testun y llyfryn asesu a'r fideos enghreifftiol ynghyd drwy glicio botwm.
- Mae deunyddiau dysgu proffesiynol hyblyg yn cael eu datblygu i gyfrannu at gyfleoedd dysgu proffesiynol ymarferwyr unigol neu grwpiau o ymarferwyr, yn ogystal â'r ddeialog broffesiynol o fewn ysgolion a rhyngddynt.
- Ein nod yw cyhoeddi'r deunyddiau uchod cyn gynted â phosibl yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.